Adroddiad i'r	Pwyllgor Safonau
Dyddiad y cyfarfod	8 Rhagfyr 2023
Swyddog / Aelod Arweiniol	Gary Williams, Swyddog Monitro
Pennaeth Gwasanaeth	Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl
Awdur yr Adroddiad	Elinor Cartwright, Cyfreithwraig dan Hyfforddiant
Teitl	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – 'Ein Canfyddiadau'

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Y crynodebau achos diweddaraf yn yr adran 'Ein Canfyddiadau' ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhoi gwybod i aelodau am y crynodebau achos diweddaraf yn yr adran 'Ein Canfyddiadau' ar wefan yr Ombwdsmon sy'n disodli'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad blaenorol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn gwybod bod yr Ombwdsmon yn arfer cyhoeddi 'Coflyfr Cod Ymddygiad' (y Coflyfr) yn chwarterol a oedd yn rhoi crynodeb byr o'r materion yr oedd yr Ombwdsmon wedi ymchwilio iddynt, a chanlyniadau'r ymchwiliadau hynny.

4.2. Ystyriwyd bod y Llyfr Achosion yn adnodd defnyddiol i roi gwybod i aelodau etholedig, y cyhoedd a phwyllgorau safonau am y mathau o gwynion a gaiff eu hymchwilio a chanlyniadau'r ymchwiliadau hynny.

4.3. Mae'r Ombwdsmon bellach wedi rhoi'r gorau i gyhoeddi'r Coflyfr ac yn hytrach wedi creu adran 'Ein Canfyddiadau' ar ei gwefan y gellir mynd ato drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://www.ombwdsmon.cymru/canfyddiadau

4.4. Mae'r adran 'Ein Canfyddiadau' yn cynnwys cyfleuster chwilio lle gellir chwilio am fanylion achosion a ystyriwyd gan yr Ombwdsman yn ôl pwnc, awdurdod, canlyniad, dyddiad a chyfeirnod. Mae'r adran yn cynnwys yr holl faterion y mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio iddynt, nid dim ond materion yn ymwneud ag ymddygiad.

4.5. Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r cyfnod 3 Awst - 24 Tachwedd 2023. Mae'r adran 'Ein Canfyddiadau' ar wefan yr Ombwdsmon yn cynnwys crynodeb o'r achosion sy'n cynnwys cwynion Cod Ymddygiad ac wedi cael eu hymchwilio gan yr Ombwdsmon, ac fe'u rhennir i'r categorïau canlynol:

Dyletswydd i gynnal y gyfraith	1

4.6. Gellir categoreiddio'r canlyniadau fel a ganlyn:

Dim angen camau pellach	1

4.7 Mae dyfyniadau perthnasol o'n tudalennau Ein Canfyddiadau ynghlwm fel Atodiad 1 er gwybodaeth. Nid oedd yr achos yn ymwneud â chyngor yn Sir Ddinbych.

4.8 Yn gryno, derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi torri ei God Ymddygiad drwy gymryd rhan a phleidleisio yng nghyfarfod y Cyngor dros y we, tra'n ymddangos ei fod yn gyrru, a fyddai o bosib yn dwyn anfri ar y Cyngor. O ystyried mai dim ond tystiolaeth o un digwyddiad a gyflwynwyd, penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd yn ymddangos ei fod wedi

ailadrodd yr ymddygiad, ac er bod yr Aelod wedi torri'r Cod, penderfynodd yr Ombwdsmon na fyddai er lles y cyhoedd i gymryd camau pellach dan adran 69(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 2000.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw'r adroddiad yn cael effaith uniongyrchol ar y Cynllun Corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi eu cynnal mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Nid oes angen gwneud penderfyniad.